OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 743 (Cy.78)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*12 Mawrth 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*14 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*7 Ebrill 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt (**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Ebrill 2008.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Symiau y mae eu hangen at anghenion personol

2. Y swm y mae awdurdod lleol yn rhagdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**4**) yw £21.38 yr wythnos.

(**1**) 1948 p.29. Gweler adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael y diffiniadau o "the minister" a "prescribed" yn y drefn honno ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 1992/2977 fel y'i diwygiwyd gan gyfres o offerynnau dilynol.

(**4**) 1948 p.29.